# Asesiad effaith integredig

## ADRAN 1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Mae Llywodraeth Cymru yn diweddaru pedair dogfen ganllaw Llywodraeth Cymru yn unol â'r ymrwymiad yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024, sy'n datgan:

'Ailddrafftio a symleiddio'r Canllawiau ar Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan gynnwys aelodau o'r gymuned i adlewyrchu eu hanghenion.'

Dyma'r canllawiau sy'n cael eu diweddaru:

- Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru;
- Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru;
- Cynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA); a
- Chanllawiau ar Reoli Gwersylla Diawdurdod.

Nid yw'r dogfennau canllaw hyn wedi cael eu hadolygu ers 2015. Bydd y newidiadau a gynigir yn diweddaru'r canllawiau yn unol â'r polisi cyfredol ac yn diwygio'r iaith i sicrhau bod y geiriad mwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, gan ddarparu amgylchedd adeiledig sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Drwy gynnig diweddaru'r canllawiau yn unol ag iaith a pholisïau sydd wedi'u diweddaru, bydd awdurdodau lleol yn cael eu harwain i ystyried sut mae modd iddyn nhw ymrwymo i wella bywydau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn eu hawdurdodau eu hunain, er enghraifft, drwy gynllunio llety cynaliadwy a sicrhau bod proses asesu llety Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei dilyn.

Mae'r asesiad effaith integredig yn ystyried effaith y diweddariadau a gynigir ac yn nodi sut mae'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) wedi helpu i lywio'r broses a wnaed i gwblhau'r diweddariadau.

**Gwybodaeth gefndirol – ymgynghori a thystiolaeth**

*Ymgynghori:*

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y newidiadau a gynigir i'r dogfennau canllaw hyn yn ystod 2025.

Roeddem am glywed barn Sipsiwn a Theithwyr i gael gwybod am brofiadau bywyd; a barn sefydliadau'r trydydd sector, cynrychiolwyr ac awdurdodau lleol am eu profiad o ddefnyddio'r canllawiau yn eu gwaith gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Er mwyn diwallu'r angen i ymgynghori ar draws yr holl grwpiau hyn, ac unrhyw rai eraill sydd â diddordeb yn y canllawiau, fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar-lein ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelodau o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr, ar y newidiadau a gynigir i'r dogfennau canllaw hyn er mwyn eu diweddaru.

Cafodd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y newidiadau i'r dogfennau canllaw ei gynnal mewn dau gam rhwng mis Chwefror 2025 a mis Mehefin 2025. Pwrpas hyn oedd sicrhau bod unrhyw un a oedd â diddordeb yn cael cyfle i roi eu barn am y newidiadau a gynigiwyd.

Er mwyn sicrhau bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael pob cyfle posibl i fod yn ymwybodol o'r newidiadau a gynigiwyd ac i fynegi eu barn, fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyflogi sefydliad trydydd sector, Gypsies and Travellers Wales (GTW) a Travelling Ahead (TGP), i ymgysylltu yn y maes ledled Cymru, gan gynnwys safleoedd amrywiol yng Nghymru ac awdurdodau lleol. Mae hyn wedi rhoi cyfle iddyn nhw gyfrannu mewn amgylchedd cyfforddus.

***Data a thystiolaeth***

Yn ôl y cyfrif carafannau diweddaraf a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2025[1], adroddwyd bod 1,320 o garafannau Sipsiwn a Theithwyr, a 177 o safleoedd yng Nghymru.

Rhwng mis Ionawr 2024 a mis Ionawr 2025, cododd cyfanswm carafannau Sipsiwn a Theithwyr 9% (1,320 o garafannau ym mis Ionawr 2025 o'i gymharu â 1,216 ym mis Ionawr 2024), a chynyddodd cyfanswm y safleoedd 12% (177 o safleoedd awdurdodedig a diawdurdod ym mis Ionawr 2025, o'i gymharu â 158 ym mis Ionawr 2024). Safleoedd preifat oedd 79% o safleoedd awdurdodedig ledled Cymru.

Cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yw un o'r cymunedau mwyaf ymylol mewn cymdeithas, ac mae ymgysylltu â'r gymuned hon yn allweddol i sicrhau bod eu diwylliannau a'u traddodiadau'n cael eu cynnal a'u parchu. Mae casglu amrywiaeth o safbwyntiau gan y gymuned yn ein helpu i ddeall canlyniadau posibl a chanlyniadau anfwriadol a fydd yn sail i'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb cyn newid polisi. Yn hanesyddol, mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr wedi byw mewn tai llai na digonol mewn llawer o awdurdodau lleol. Bydd y newidiadau a gynigir yn rhoi cyngor ac arweiniad clir i awdurdodau lleol ar sut mae gwella canlyniadau i Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd ledled Cymru, gan roi cyfle iddyn nhw ffynnu mewn amgylchedd iach a hapus a helpu awdurdodau lleol i gynnal eu Hasesiadau statudol o Lety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA).

## Tymor hir

Ein bwriad yw y bydd y newidiadau hyn yn arwain at effaith gadarnhaol ar fywydau Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw yn y safleoedd neu sydd ag angen o ran llety nad yw wedi'i ddiwallu.

---

[1] Cyfrif carafannau Sipsiwn a Theithwyr: Ionawr 2025 (ystadegau swyddogol wrthi'n cael eu datblygu) [HTML] | LLYW.CYMRU

Drwy ddiweddaru'r gyfres o ddogfennau canllaw o ran angen ac iaith addas, bydd awdurdodau lleol yn gliriach ynghylch eu cyfrifoldebau o ran creu a chynnal safleoedd cymunedol a sicrhau bod mannau aros addas a diogel i gymunedau wrth iddyn nhw deithio drwy'r wlad.

Mae disgwyl i'r broses o ddiweddaru'r gyfres bresennol o ganllawiau fod yn gadarnhaol, oherwydd bydd yn atgoffa awdurdodau lleol o ba mor bwysig yw sicrhau bod tai diogel a diwylliannol briodol ar gael i Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru, gan ei fod yn un o nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu yn dangos bod diweddaru'r canllawiau yn cynnig cyfleoedd i gryfhau dull cydweithredol sy'n seiliedig ar hawliau, a sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at dai, gofal iechyd, addysg, glanweithdra a chyfleusterau chwarae digonol, yn ogystal â sicrhau bod cyfranogiad ystyrlon gan yr holl breswylwyr (yn enwedig plant) yn rhan annatod. Tynnodd ymatebwyr sylw'n gyson at yr angen am rolau a chyfrifoldebau cliriach, canllawiau ymarferol a hwylus i bawb, a mwy o dryloywder ac atebolrwydd, gan nodi heriau parhaus fel anghysondebau o ran diwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, darpariaeth tramwy (wrth iddyn nhw deithio o un man i'r llall) gyfyngedig, ac amodau amrywiol mewn safleoedd.

Er nad yw'r canllawiau'n statudol, mae swyddogion yn sicrhau bod awdurdodau lleol a chymunedau wedi cael cyfle i ymgysylltu a chyfrannu at y canllawiau.

Nod y pedair dogfen ganllaw sydd wedi'u diweddaru yw lliniaru rhai o'r materion a nodwyd yn gynharach a cheisio gwella bywydau cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru drwy nodi disgwyliadau clir ar gyfer awdurdodau lleol.

- Mae'r canllawiau ar Reoli Gwersylloedd Diawdurdod yn helpu i sicrhau bod gwersylloedd dros dro yn cael eu trin yn deg, yn gymesur ac mewn ffordd sy'n parchu hawliau dynol, a cheisio sicrhau nad oes gorfodaeth mewn ffordd wahaniaethol.

- Mae'r canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn darparu safonau ar gyfer creu safleoedd diogel, sy'n ddiwylliannol briodol ac sydd â chyfarpar da, gan gynnwys canllawiau ar gynllun, cyfleusterau, a mynediad at wasanaethau hanfodol.

- Mae'r canllawiau Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn cefnogi awdurdodau lleol i gynnal a chadw safleoedd presennol i safon uchel, gan sicrhau bod materion fel atgyweiriadau'n cael eu rheoli'n gyson ac mewn modd sy'n dangos parch.

- Mae'r Canllawiau ar Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn helpu awdurdodau lleol i gynnal asesiadau cywir o anghenion llety lleol, fel bod y safleoedd a gaiff eu darparu yn y dyfodol yn seiliedig ar anghenion y gymuned.

Gyda'i gilydd, nod y dogfennau hyn yw gwella llety, lleihau anghydraddoldebau, a hyrwyddo hawliau a chynhwysiant cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.

Wrth gyhoeddi'r canllawiau sydd wedi'u diweddaru, dylai hyn helpu i leihau anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gyfer aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Bydd monitro parhaus a gweithio mewn partneriaeth â chymunedau yn hanfodol i sicrhau bod yr effeithiau hyn yn cael eu gwireddu.

## Atal

Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn byw mewn amodau byw gwael mewn llawer o ardaloedd. Er bod y dogfennau canllaw eisoes yn bodoli, wrth ddiweddaru'r canllawiau i roi cyfarwyddiadau cliriach i awdurdodau lleol, dylai hyn helpu'r awdurdodau i gefnogi cymunedau'n well. Mae hyn yn arbennig o wir yng nghyd-destun dogfennau canllaw ar ddylunio a rheoli safleoedd. Mae'r canllawiau hynny'n rhoi cyfarwyddyd i awdurdodau lleol ynghylch sut y dylid dylunio safleoedd cymunedol a chynnal safonau gofynnol ar gyfer trefniadau byw i gefnogi'r gymuned.

Mae canllawiau wedi'u diweddaru yn rhoi cyngor ar ddefnyddio'r deunyddiau mwyaf cost effeithiol a mwyaf addas i adeiladu a chynnal safleoedd. Mae diweddaru'r canllawiau gyda'r safonau diweddaraf yn sicrhau cyn lleied â phosibl o ddifrod i'r amgylchedd a cholli bioamrywiaeth.

Er nad yw'r dogfennau canllaw sydd wedi'u diweddaru yn effeithio'n uniongyrchol ar fioamrywiaeth Cymru, mae'r canllawiau'n cyfeirio at ddiogelu'r amgylchedd.

Mae'r canllawiau'n cyfeirio at reolwyr safle ac awdurdodau lleol yn gyfrifol am reoli safleoedd. Mae'r canllawiau'n argymell cyfeirio at adrannau Iechyd yr Amgylchedd mewn awdurdodau lleol os nad yw rheolwyr safle'n gallu ymgymryd â thasgau cynnal a chadw, er mwyn sicrhau bod sbwriel yn cael ei gasglu a bod gwair yn cael ei dorri. Mae'r dogfennau canllaw hefyd yn amlinellu, pan fydd safleoedd mwy yn cael eu datblygu, y dylai awdurdodau lleol ystyried yr effaith ar gynaliadwyedd amgylcheddol a bod safbwyntiau darpar breswylwyr a'r gymuned leol yn cael eu casglu. Roedd y canllawiau Rheoli Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn amlinellu bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag Adran 45 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 drwy ddarparu gwasanaeth casglu gwastraff.

Mae'r cynnig yn ceisio mynd i'r afael â symptom o'r gwahaniaethu y mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru yn ei wynebu. Drwy gyhoeddi canllawiau wedi'u diweddaru sy'n addas i'r diben, bydd gan awdurdodau lleol fwy o wybodaeth am sut mae rheoli anghenion y gymuned, yn enwedig mewn perthynas â thai a llety. Byddan nhw felly, yn eu tro, yn cyfrannu at wella ansawdd eu bywyd.

Mae'r dogfennau canllaw ar ddylunio a rheoli safleoedd yn amlinellu pa mor bwysig yw dylunio safleoedd sy'n lleihau gwastraff ac yn gwella cydlyniant cymunedol drwy annog mannau lle gall plant chwarae a byw'n ddiogel. Mae'r canllawiau hefyd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol benderfynu a yw'r safle mewn perygl o lifogydd drwy gyfeirio at Fap Llifogydd Asiantaeth yr Amgylchedd. Os oes perygl o lifogydd rhaid i'r awdurdod lleol gysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd i gael cyngor ar y tebygolrwydd o lifogydd, dyfnderoedd a chyflymder y llifogydd y gellid eu disgwyl, a fydd gwasanaeth rhybuddio ar gael, a chymryd camau priodol. Mae darparu llety priodol yn cael effaith gadarnhaol ar fynediad at wasanaethau i Sipsiwn a Theithwyr ac yn cael effaith fanteisiol ar y gymdeithas ehangach drwy well cydlyniant cymunedol a llai o wersylloedd diawdurdod.

## Integreiddio

Cafodd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ei lansio yn 2022 ac mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer cenedl wrth-hiliol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cydnabod yn benodol bod Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grŵp ethnig lleiafrifol sy'n profi hiliaeth. Mae nod penodol yn y Cynllun Gweithredu sy'n ymwneud ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i gydnabod bod angen llety diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol er mwyn i unigolion ffynnu.

Ar hyn o bryd, mae 14 cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol sy'n ymwneud â thai ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr dros dair pennod, sef penodau ar arweinyddiaeth, cartrefi a lleoedd, a throsedd a chyfiawnder. Mae diweddaru'r 4 dogfen ganllaw hyn yn cyd-fynd â Chamau Gweithredu o'r cynllun hwn.

Mae'r gofyniad i gynnal Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn ymwneud â'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, lle nodwyd bod angen hynny. Cafodd y sylfaen dystiolaeth ar gyfer y ddyletswydd hon ei chyhoeddi i gefnogi Deddf Tai (Cymru) 2014. O dan Ran 3 o Ddeddf Tai Cymru 2014, mae dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan Weinidogion.

## Cydweithio

Roedd yr ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng misoedd Chwefror a Mai/Mawrth a Mehefin 2025 yn canolbwyntio ar y gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr wrth gasglu safbwyntiau ac adborth ar bob un o'r dogfennau canllaw.

Mae awdurdodau lleol, aelodau o'r cyhoedd a chymunedau i gyd wedi cael cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar y pedair dogfen ganllaw. Fodd bynnag, y prif bartneriaid yw awdurdodau lleol a'r cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr eu hunain. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn ymwybodol bod swyddogion yn diweddaru'r dogfennau ac wedi cael cyfle i roi sylwadau ar y newidiadau a'r diweddariadau hyn. Yn yr un modd, mae cymunedau wedi cael eu cynnwys drwy sefydliadau trydydd sector Gypsies and Travellers Wales (GTW) a Travelling Ahead (TGP).

Mae hyn hefyd wedi cael ei rannu â chydweithwyr ym maes polisi, gan gynnwys y tîm cyfreithiol sydd â diddordeb ym mhwnc y canllawiau.

Yr unig newid cyfreithiol sy'n berthnasol i'r canllawiau yw Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, sy'n ddeddfwriaeth ar draws y DU. Cyflwynodd y Ddeddf hon droseddau newydd yn ymwneud â gwersylloedd diawdurdod, ac ehangu pwerau'r heddlu, gan gynnwys y drosedd o breswylio neu fwriadu byw ar dir heb ganiatâd, a phwerau cysylltiedig i gyfarwyddo unigolion i adael.

Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys ffocws ar newid a diweddaru'r iaith ar draws y pedair dogfen ganllaw. Cafodd y canllawiau drafft eu rhannu ag awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector, cydweithwyr ym maes polisi, a chymunedau i gael mewnbwn/sylw.

## Cynnwys

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol ar y datblygiad fel rhan o'r broses o ymgynghori a chyhoeddi'r 4 dogfen ganllaw ddiweddaraf ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Yn ystod y cyfnodau ymgynghori (Chwefror-Mai/Mawrth-Mehefin 2025), mae ymgysylltu pwrpasol wedi bod wedi'i hwyluso gan sefydliadau trydydd sector sy'n ymwneud â Sipsiwn, Roma a Theithwyr, yn enwedig o ran rheoli gwersylloedd a dylunio safleoedd.

Cafodd y dogfennau ymgynghori eu cyhoeddi ar-lein er mwyn cael sylwadau gan y cyhoedd a rhanddeiliaid ar draws yr holl gymunedau buddiant sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae grwpiau fel Sipsiwn a Theithwyr Cymru, a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cymryd rhan yn y broses hon ac wedi rhoi adborth beirniadol ar ddimensiynau amgylcheddol, cymdeithasol a chyfreithiol y canllawiau. Er bod yr ymgynghoriad wedi ymgysylltu ag amrywiaeth o leisiau, bydd angen parhau i fonitro er mwyn sicrhau bod adborth, yn enwedig gan gymunedau yr effeithir arnyn nhw'n uniongyrchol, yn cael ei ymgorffori mewn modd ystyrlon yn y dogfennau canllaw.

Mewn ymatebion i'r ymgynghoriad, mae'r rheini y mae'r cynnig yn effeithio arnyn nhw, hynny yw, aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr, wedi nodi rhai meysydd sydd ar goll o'r dogfennau canllawiau gwreiddiol.

Mae crynodeb o'r adborth i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r 4 dogfen ganllaw sydd wedi'u diweddaru. Bydd canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymateb cryno.

## Effaith

Mae'r pedair dogfen ganllaw sydd wedi'u diweddaru yn cyd-fynd â Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ogystal â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'r dogfennau'n cynrychioli'r angen i awdurdodau lleol ddarparu ar gyfer aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr a gwella ansawdd eu bywyd pan fyddan nhw'n teithio drwy Gymru. Fodd bynnag, nid yw'r canllawiau'n statudol, ac nid oes gan Lywodraeth Cymru lawer o ddylanwad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn glynu wrth yr argymhellion.

Rydym wedi gweithio'n agos â chydweithwyr mewnol a rhanddeiliaid allanol yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac mae llawer o awdurdodau lleol yn aros i ganllawiau wedi'u diweddaru gael eu cyhoeddi, yn enwedig mewn perthynas â dogfen ganllawiau'r asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr, i ddylanwadu ar y gwaith maen nhw'n ei wneud.

Rydym wedi ymgynghori'n benodol ag aelodau o'r gymuned Sipsiwn, Roma a Theithwyr i lenwi unrhyw fylchau yn ein gwybodaeth am eu ffyrdd o fyw ac wedi sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y canllawiau diweddaraf.

Ym mis Mehefin 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ymateb briffio cynhwysfawr, gan gymeradwyo cyfeiriad cyffredinol y dogfennau canllaw yn ogystal â phwyso am fynegi hawliau dynol yn well.

## Costau ac Arbedion

Ar hyn o bryd, nid oes cost yn gysylltiedig â'r cynnig i gyhoeddi'r pedair dogfen ganllaw hyn. Efallai y bydd cyfle i awdurdodau lleol arbed arian yn y tymor hwy os byddan nhw'n cadw at

eu hasesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr a'r angen a ddaw yn sgil hyn, ac yn diwallu anghenion llety cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan osgoi'r costau sy'n gysylltiedig â rheoli gwersylloedd diawdurdod.

### Mecanwaith

Gan nad oes deddfwriaeth newydd wedi cael ei chynnig ac nad yw'r canllawiau'n statudol, nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi cael ei gwblhau.

Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau digonol o dan y ddeddfwriaeth bresennol i gyflawni ei swyddogaethau presennol yn y maes hwn.

## Newidiadau o bwys i ddogfennau canllaw:

Mae'r isod yn amlinellu'r 4 dogfen ganllaw a'r prif newidiadau a wnaed i bob un yn dilyn y broses adolygu ac ymgynghori â'r cyhoedd.

- **Dylunio Safle Sipsiwn a Theithwyr:**

| Disgrifiad o'r Newid | Canllawiau gwreiddiol | Canllawiau wedi'u diweddaru (2026) |
|---|---|---|
| Ymgysylltu â'r Gymuned | Roedd ymgynghori yn cael ei annog ond nid ei wneud yn rhan annatod. | Mae gweithio mewn partneriaeth â chymunedau i greu'r canllawiau bellach yn rhan greiddiol, gyda thrigolion yn siapio cynlluniau, rheolau, a chyfleusterau. |
| Dull Gweithredu Hawliau Dynol | Cyfeiriadau prin at fframweithiau hawliau. | Yn pwysleisio dull gweithredu cyffredinol sy'n seiliedig ar hawliau dynol, gan gyfeirio at CCUHP, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, a Nodau Datblygu Cynaliadwy. |
| Cyfranogiad Plant | Roedd anghenion y plant yn cael eu hystyried yn anuniongyrchol. | Cynnwys Erthyglau 12, 24 a 27 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn benodol; dyletswydd statudol o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. |
| Safonau Dylunio Safleoedd | Safonau cyffredinol gyda chyn lleied â phosibl o deilwra diwylliannol. | Canllawiau dylunio manwl gan gynnwys blociau amwynderau, gofod, nodweddion artistig, a chynlluniau sy'n briodol yn ddiwylliannol. |

| | | |
|---|---|---|
| Safleoedd Dros Dro a Safleoedd Tramwy | Nid oedd y ddarpariaeth tramwy wedi'i datblygu'n ddigonol. | Mae'r canllawiau nawr yn cynnwys mannau aros dros dro/wedi'u negodi a dylunio safleoedd tramwy, gyda chymhwysedd i gael cyllid. |
| Integreiddio â gwaith Cynllunio | Cysylltiadau gwan â pholisi cynllunio. | Cydweddu'n well â Chynlluniau Datblygu Lleol a Chylchlythyr Cynllunio 005/2018; pwyslais ar leoliadau cynaliadwy. |
| Rheoli Safleoedd | Canllawiau gweithredol sylfaenol. | Rolau manwl ar gyfer rheolwyr safle, gofynion hyfforddi, a phrotocolau ar gyfer ymgysylltu â phreswylwyr. |
| Monitro a Chydymffurfio | Ychydig o anogaeth i gydymffurfio. | Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ystyried defnyddio pwerau statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. |
| Hyfforddiant ar gyfer Awdurdodau Lleol | Dim rhaglen hyfforddi strwythuredig. | Rhaglen hyfforddi genedlaethol wedi'i chomisiynu gyda Taye Training, gan weithio mewn partneriaeth ag aelodau'r gymuned. |
| Diffiniadau a Chwmpas | Diffiniad cul o Sipsiwn a Theithwyr. | Wedi'i ehangu i gynnwys Teithwyr Newydd, Siewmyn, a'r rheini sydd â thraddodiadau diwylliannol nomadiaeth. |
| Diogelwch ac Addasrwydd Safleoedd | Cyfeiriadau cyffredinol at ddiogelwch. | Safonau penodol ar gyfer diogelwch tân, cynaliadwyedd amgylcheddol, a hyfywedd hirdymor (21 mlynedd). |
| Dulliau Adborth | Dim cylchoedd adborth ffurfiol. | Yn annog arolygon boddhad am safleoedd, adolygiadau ar ôl preswylio, ac ymgysylltu rheolaidd. |

- **<u>Rheoli Gwersylloedd Diawdurdod:</u>**

| **Disgrifiad o'r Newid** | **Canllawiau gwreiddiol** | **Canllawiau wedi'u diweddaru (2026)** |
|---|---|---|
| Teitl a Chwmpas | Wedi canolbwyntio ar "reoli gwersylla diawdurdod" | Yn awr, mae "rheoli gwersylloedd diawdurdod" yn ehangach, yn fwy cynhwysol, yn adlewyrchu ystod ehangach o sefyllfaoedd ac anghenion ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. |
| Deddfwriaeth | Rhoi sylw i'r prif gyfreithiau | Wedi'u diweddaru i gynnwys Deddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd 2022, gyda phwerau'r heddlu a throseddau newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Hawliau Dynol a Chydraddoldeb | Cyfeiriad cyffredinol at ddyletswyddau cydraddoldeb | Mwy o bwyslais ar ddull gweithredu sy’n seiliedig ar hawliau dynol a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Cyfeiriad penodol at y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. |
| Hawliau Plant | Ychydig o gyfeirio at hyn | Adran ehangach ar y CCUHP a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Yn pwysleisio dull gweithredu sy’n seiliedig ar hawliau plant drwy gydol y broses ymgysylltu a gwneud penderfyniadau. |
| Y Gymraeg | Crybwyll yn gyffredinol | Gofynion cliriach ar gyfer cydymffurfio â Safonau’r Gymraeg a hysbysiadau cydymffurfio awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdodau Lleol fynd ati o ddifrif i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo’r Gymraeg drwy gynnig a chyfeirio nid dim ond at addysg Gymraeg yn yr ardal, ond hefyd at wasanaethau eraill fel cyfleoedd dysgu Cymraeg i’r teulu drwy gyfrwng Darparwyr Lleol \| Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cylch Meithrin a grwpiau babanod a phlant bach Ti a Fi, a Mentrau Iaith ar gyfer digwyddiadau cymunedol, a’u rhoi mewn cysylltiad ag aelod o Lysgenhadon Cymru sy’n gallu helpu i addasu i elfennau diwylliannol byw yng Nghymru |
| Strategaethau Lleol | Canllawiau ar gael strategaeth | Rhestr wirio fanylach ar gyfer strategaethau lleol, gan gynnwys llywodraethu, ymgysylltu (gyda phlant a phobl ifanc), hyfforddiant ar ymwybyddiaeth ddiwylliannol, a phrotocolau gweithredol. |
| Asesiad Lles | Wedi argymell gwiriadau lles | Argymhelliad cryfach ar gyfer asesiadau lles amserol (o fewn 24 awr yn ddelfrydol), gyda thempled cyffredinol ac awgrym i ddefnyddio |

| | | |
|---|---|---|
| | | aseswyr annibynnol sydd â dealltwriaeth ddiwylliannol. |
| Mannau Aros Dros Dro / Mannau wedi'u Negodi | Cael eu crybwyll fel opsiwn | Canllawiau manylach ar greu a rheoli'r safleoedd hyn, gan gynnwys gofynion sylfaenol o ran amwynderau ac asesiadau lles. |
| Rolau a Chyfrifoldebau | Wedi'u hamlinellu ar gyfer awdurdodau | Yn fwy penodol ynghylch cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, awdurdodau cyhoeddus eraill, tirfeddianwyr preifat, a'r heddlu. |
| Proses Cam wrth Gam | Proses gyffredinol | Camau cliriach, mwy manwl: adrodd, asesiad lles, dadansoddiad cost a budd, a chyfathrebu. |
| Cod Ymddygiad | Cael ei grybwyll | Templed wedi'i ddarparu ar gyfer cytundebau a negodwyd rhwng awdurdodau lleol a meddianwyr gwersylloedd. |
| Atodiadau | Geirfa a ffurflenni | Geirfa wedi'i diweddaru, templed cod ymddygiad, a ffurflen asesu lles. |

- **<u>Cynnal Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr:</u>**

| Disgrifiad o'r Newid | Canllawiau gwreiddiol | Canllawiau wedi'u diweddaru (2026) |
|---|---|---|
| Cyd-destun Statudol | Wedi canolbwyntio ar ddyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gyda llai o bwyslais ar integreiddio â fframweithiau eraill. | Yn ailddatgan dyletswyddau o dan Ddeddf 2014, ond bellach yn cysylltu proses asesiad llety Sipsiwn a Theithwyr yn benodol â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol. |
| Diffiniad o Sipsiwn a Theithwyr | Wedi defnyddio'r diffiniad statudol ond gyda llai o fanylion am gynhwysiant. | Yn egluro ac yn ehangu'r diffiniad, gan gynnwys, yn benodol, Teithwyr Newydd a'r rheini sydd â |

| | | |
|---|---|---|
| | | thraddodiad diwylliannol nomadiaeth, ac mae'n pwysleisio'r angen i asesu'r rheini mewn cartrefi brics a morter. |
| Gofynion Ymgynghori | Roedd yn gofyn bod ymgynghori'n cael ei gynnal ond heb nodi llawer. | Mwy o bwyslais ar ymgynghori'n uniongyrchol â'r holl gymunedau perthnasol, gan gynnwys plant, pobl ifanc, a'r rheini mewn cartrefi brics a morter. |
| Ymgysylltu â'r Gymuned | Wedi annog ymgysylltu ond nid bob amser yn fanwl. | Gweithio mewn partneriaeth ac ymgysylltu cynhwysol, gan gynnwys ad-dalu aelodau'r gymuned am gymryd rhan, a chynnal digwyddiadau cymunedol. |
| Casglu Data | Wedi dibynnu mwy ar ddata eilaidd a dulliau arolwg llai cadarn. | Yn gofyn am arolwg sylfaenol ar ffurf cyfrifiad ar gyfer data cadarn a chyfredol, ac mae'n manylu ar gyfyngiadau data eilaidd. |
| Technegau Arolwg | Wedi caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran dulliau arolwg. | Yn argymell yn gryf y dylid cael cyfweliadau wyneb yn wyneb, gyda chanllawiau ar sensitifrwydd diwylliannol, amseru, a chynnwys plant a phobl ifanc. |
| Dadansoddi Anghenion | Wedi canolbwyntio ar yr angen am leiniau ond llai ar wrthwynebiad diwylliannol neu orlenwi. | Yn ymhelaethu ar asesu gwrthwynebiad diwylliannol, gorlenwi, a'r angen am leiniau preswyl a lleiniau tramwy. Yn darparu dulliau cyfrifo awtomataidd ac yn cyfeirio at atodiadau ar gyfer offer a thempledi. |
| Gweithio ar lefel Ranbarthol | Wedi cael ei grybwyll ond ddim yn fanwl. | Yn annog ac yn manylu ar weithio mewn partneriaeth ar lefel ranbarthol, gan gynnwys dadgyfuno data, ac asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr ar y cyd. |
| Adborth a Thryloywder | Llai o bwyslais ar roi adborth i gyfranogwyr. | Yn gofyn bod adborth hwylus i bawb yn cael ei roi i'r holl gyfranogwyr, a bod yr ymgysylltu'n parhau ar ôl yr asesiad. |

| | | |
|---|---|---|
| Defnyddio Asesiad | Wedi canolbwyntio ar lywio strategaeth dai leol. | Bellach, mae hyn yn sail hefyd i Gynlluniau Datblygu Lleol, ceisiadau cynllunio, a chymhwysedd i gael cyllid gan Lywodraeth Cymru (er enghraifft, Grant Cyfalaf ar gyfer Safleoedd). |
| Adolygu a Diweddaru | Yn gofyn am adolygiad bob 5 mlynedd. | Yn pwysleisio ymgysylltu parhaus, monitro rheolaidd gan Lywodraeth Cymru, a gweithdrefnau cwyno clir ar gyfer aelodau'r gymuned. |

- **<u>Rheoli Safle Sipsiwn a Theithwyr:</u>**

| **Disgrifiad o'r Newid** | **Canllawiau Gwreiddiol (2015)** | **Canllawiau wedi'u diweddaru (2026)** |
|---|---|---|
| Y Cyd-destun Polisi | Wedi canolbwyntio ar reoli safleoedd a chydymffurfio â Deddf Cartrefi Symudol 2013. | Yn mynd ati'n benodol i wreiddio Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau dynol, gyda mwy o bwyslais ar weithio mewn |

| | | |
|---|---|---|
| | | partneriaeth, a dyletswyddau yn ymwneud â chydraddoldeb. |
| Ymgysylltu â'r Gymuned | Wedi annog ymgynghori â phreswylwyr a chymdeithasau preswylwyr cydnabyddedig. | Yn gofyn am ymgysylltu ehangach a pharhaus, gan gynnwys adnoddau digidol, asesiadau rheolaidd o anghenion, a chynnwys lleisiau plant a phobl ifanc yn benodol. |
| Atebolrwydd a Monitro | Anstatudol; cyfeirio ychydig at fonitro. | Mae'r canllawiau'n dal yn anstatudol ond maen nhw bellach yn cysylltu cydymffurfio â chyllid grant cyfalaf, ac yn annog adroddiadau ffurfiol, adolygiadau o berfformiad, a thryloywder. |
| Rôl Rheolwr Safle | Wedi amlinellu cyfrifoldebau ac wedi argymell profiadau. | Wedi ehangu ar y manylion o ran recriwtio (cynnwys y gymuned), hyfforddiant (cydraddoldeb, amrywiaeth, a rheoli contractau), a'r angen am ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Wedi cynnwys templed o ddisgrifiad swydd enghreifftiol. |
| Diogelwch tân | Cyfeiriad cyffredinol at gyfrifoldebau o ran diogelwch tân. | Pennod fanwl ar ddiogelwch tân, egluro dyletswyddau cyfreithiol, asesiadau risg, a mesurau ymarferol. |
| Cynnal a Chadw ac Atgyweirio | Wedi rhoi pwys ar waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio a gwaith cynnal a chadw ymatebol. | Yn ychwanegu gofyniad am gynllun rheoli a chynnal a chadw safleoedd, gyda rhestr wirio enghreifftiol newydd, ac yn cysylltu cynlluniau cynnal a chadw â chymhwysedd i gael grant. |
| Cyfleustodau a Bilio | Cyngor cyffredinol ar ddarparu cyfleustodau. | Argymhelliad cryfach ar gyfer perthynas uniongyrchol rhwng cwsmeriaid a darparwyr cyfleustodau, a thryloywder mewn biliau. |
| Cwynion a Datrys Anghydfod | Wedi annog polisi cwynion clir. | Yn gofyn am broses gwynion glir a hygyrch ac yn annog dulliau adolygu annibynnol. |

| | | |
|---|---|---|
| Absenoldeb Dros Dro ac Ymwelwyr | Wedi caniatáu ar gyfer absenoldeb tymor byr ac ymwelwyr. | Agwedd fwy hyblyg a sensitif yn ddiwylliannol at absenoldeb a threfniadau dros dro, gyda chanllawiau cliriach ar uchafswm cyfnodau a diogelu. |
| Diogelu ac Ymddygiad | Cyngor cyffredinol ar reolau ac ymddygiad yn y safleoedd. | Ffocws cryfach ar ddiogelu, cyfryngu, a chadw cofnodion o ddigwyddiadau, gan gyfeirio'n benodol at droseddau casineb ac ymwneud â'r heddlu. |
| Atodiadau ac Adnoddau | Wedi cynnwys geirfa a manylion cyswllt rhanddeiliaid. | Wedi diweddaru ac ehangu atodiadau, gan gynnwys mwy o sefydliadau rhanddeiliaid a dolenni i adnoddau allanol. |

## ADRAN 8. Casgliad

### Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi bod cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn grŵp blaenoriaeth. Mae'n cynnwys camau gweithredu sy'n ymwneud â thai, eiriolaeth, hyfforddiant ar wrth-hiliaeth, a chynhwysiant amgylcheddol sydd wedi'u cynllunio i leihau anghydraddoldeb systemig a gwella lles y cymunedau hyn.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod bod llety diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol yn hanfodol er mwyn i unigolion yng nghymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ffynnu o ran iechyd, addysg, a bywyd cymdeithasol. Mae'n ymrwymo i fynd i'r afael â diffygion sydd wedi bodoli ers tro o ran darparu safleoedd ac ansawdd y safleoedd hynny. Mae'r dogfennau canllaw yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r angen hwn ac yn darparu ffyrdd o wella llety ar gyfer y gymuned hon.

Wrth ddatblygu'r pedair dogfen ganllaw ddiweddaraf ar Sipsiwn, Roma a Theithwyr, mae'r gwaith wedi cynnwys cyfres o weithgareddau ymgysylltu a oedd yn targedu'r rheini y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnyn nhw, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cydraddoldeb 2010. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgyngoriadau ffurfiol ar bob un o'r pedair dogfen ganllaw rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2025, gan gynnwys estyn allan yn benodol at gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy sefydliadau cymunedol fel Travelling Ahead a Gypsies and Travellers Wales.

Aethpwyd ati i ymgysylltu â phlant, a’u cynrychiolwyr yn bennaf (hynny yw, Sipsiwn, Roma a Theithwyr), gan sicrhau bod eu profiadau bywyd yn cael eu hadlewyrchu yn y canllawiau. Bydd deunyddiau’r canllawiau terfynol ar gael yn ddwyieithog.

Ymgynghorwyd hefyd â rhanddeiliaid yn y sector cyhoeddus fel awdurdodau lleol, a’r Comisiwn Hawliau Plant i sicrhau bod ystyriaethau ymarferol a chydlyniant cymunedol yn cael eu hystyried. Roedd yr ymgysylltu hwn yn gymorth i lunio canllawiau sy’n fwy cynhwysol ac sy’n cyd-fynd ag anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

Fodd bynnag, ni allwn fesur yr effaith uniongyrchol y gallai hyn ei chael gan fod y canllawiau’n anstatudol, ac ni allwn warantu y bydd pob awdurdod lleol yn cydymffurfio.

**Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Disgwylir i effeithiau’r cynnig i gyhoeddi pedair dogfen ganllaw sydd wedi’u diweddaru fod yn gadarnhaol, yn enwedig i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd, yn hanesyddol, heb gael mynediad da at lety addas a gwasanaethau cyhoeddus. Mae’r canllawiau sydd wedi’u diweddaru yn cryfhau’r angen am ddarparu safleoedd addas, rheoli ac ymgysylltu, yn ogystal â gwella amodau ar gyfer teuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr o ran diogelwch, iechyd, mynediad at addysg, a pharch tuag at eu diwylliant.

Nod y dogfennau hyn sydd wedi’u diweddaru yw gwella cysondeb, tegwch a sensitifrwydd diwylliannol o ran sut mae llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael ei ddarparu a’i reoli, yn ogystal â’u bod yn cydweddu’n well â rhwymedigaethau hawliau dynol, blaenoriaethau iechyd y cyhoedd, a dyletswyddau awdurdodau lleol. Daw amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol wrth gyhoeddi'r canllawiau hyn, yn ogystal â thynnu sylw hefyd at yr heriau a’r risgiau y mae’n rhaid rhoi sylw iddyn nhw er mwyn i’r canllawiau gael gwerth parhaol.

Un o effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol y canllawiau sydd wedi’u diweddaru yw cryfhau’r dull sy’n seiliedig ar hawliau wrth ddelio â llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Mae’r dogfennau’n atgyfnerthu dyletswydd awdurdodau lleol i ddarparu amgylcheddau byw diogel sy’n briodol yn ddiwylliannol, yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae’r canllawiau sydd wedi’u diweddaru yn nodi safonau a gweithdrefnau clir i awdurdodau lleol gynnal asesiadau cryf o anghenion ar gyfer cymunedau. Mae hyn yn sicrhau bod y safleoedd a ddarperir yn cydweddu’n well â’r galw go iawn, gan helpu teuluoedd i gael mynediad at leoedd diogel sy’n briodol yn ddiwylliannol i fyw ynddyn nhw. Ar ben hynny, mae’r canllawiau’n amlinellu’r gofynion iechyd a diogelwch sylfaenol ar gyfer safleoedd awdurdodedig, gan gynnwys glanweithdra, rheoli gwastraff, a mesurau diogelwch tân. Mae hyn yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod safleoedd carafannau yn bodloni safonau iechyd yr amgylchedd, gan wella llesiant preswylwyr.

Mae’r canllawiau sydd wedi’u diweddaru hefyd yn sicrhau ymgysylltu gwell â'r gymuned, gan weithio mewn partneriaeth, a sicrhau bod lleisiau preswylwyr cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn dod yn rhan annatod o ddylunio a rheoli safleoedd. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar ymgynghori â theuluoedd, cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau, a sicrhau bod cyfleusterau safleoedd yn adlewyrchu arferion diwylliannol fel cadw ceffylau a byw cymunedol. Gall y newid hwn tuag at ymgynghori cynnar ac ystyrlon olygu bod gan y gymuned fwy o ffydd, yn ogystal â chynyddu’r nifer sy’n defnyddio gwasanaethau, a helpu i atal gwrthdaro rhwng preswylwyr a darparwyr gwasanaethau.

Un effaith gadarnhaol fawr arall yw’r potensial i wella iechyd a diogelwch y cyhoedd. Wrth sicrhau cysondeb yn y disgwyliadau o ran cynllun safleoedd a mynediad at wasanaethau cyfleusterau sylfaenol, mae hyn yn helpu i wella’r canlyniadau o ran iechyd corfforol. Mae gweithdrefnau cliriach ar gyfer rheoli gwersylloedd diawdurdod drwy negodi arosiadau a chynnal asesiadau lles hefyd yn lleihau’r ddibyniaeth ar ddefnyddio dulliau gweithredu sy’n troi at orfodi. Mae dulliau o'r math yn aml wedi amharu ar deuluoedd ac wedi arwain at fwy o anghydraddoldebau ym maes iechyd ac addysg.

Mae manteision ehangach hefyd i gydlyniant cymdeithasol a chydraddoldeb. Mae’r canllawiau’n hyrwyddo perthynas fwy cynhwysol lle mae parch rhwng cymunedau sefydlog a chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, drwy osod disgwyliadau cliriach ar gyfer awdurdodau lleol a sefydlu mecanweithiau strwythuredig ar gyfer datrys anghydfod ac ymgysylltu.

Ar ben hynny, mae’r canllawiau’n cyflwyno cyfleoedd amgylcheddol, yn enwedig drwy gynllunio lleoliad safleoedd yn well ac osgoi ardaloedd sy’n dueddol o gael llifogydd neu ardaloedd llygredig. Os caiff hyn ei weithredu’n dda, gallai hyn gyfrannu at leihau risgiau iechyd a gwella bioamrywiaeth.

Y pryder mwyaf yw’r bwlch posibl rhwng yr argymhellion yn y dogfennau canllaw a gweithredu ymarferol. Er bod y dogfennau’n darparu disgwyliadau clir, nid ydyn nhw’n gorfodi awdurdodau lleol i’w cyflawni gan nad ydyn nhw’n statudol, er bod awdurdodau lleol wedi nodi awydd i gael canllawiau diwygiedig, yn enwedig mewn perthynas â dogfen ganllaw Cynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr sy’n helpu awdurdodau lleol i gyflawni dyletswydd statudol i gynnal asesiad bob 5 mlynedd ar anghenion Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Hefyd, mae risg o anghysondeb wrth ddehongli. Gall awdurdodau lleol ddehongli’r canllawiau mewn ffyrdd gwahanol i’w gilydd, a gall hyn, yn ei dro, effeithio ar sut mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu trin mewn gwahanol rannau o Gymru.  Mae swyddogion yn monitro awdurdodau lleol yn rheolaidd i’w dal i gyfrif am eu dyletswydd i ddiwallu’r angen a nodwyd ganddyn nhw yn eu hasesiad llety Sipsiwn a Theithwyr. Bydd y trefniadau monitro hyn hefyd yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o’r dogfennau canllaw sydd wedi’u diweddaru ac annog pobl i’w defnyddio/cadw atyn nhw.

Un pryder allweddol arall yw'r diffyg parhaus o ran safleoedd sydd ar gael ar draws rhannau o Gymru. Ni all y canllawiau ddatrys y prinder ers tro o ran lleiniau parhaol a lleiniau tramwy heb ymrwymiad gan awdurdodau lleol i fuddsoddi mewn darpariaeth newydd. Mae'r prinder hwn yn cyfrannu at gylchoedd lle gwelir gwersylloedd diawdurdod a throi allan, rhywbeth y mae'r canllawiau'n ceisio ei leihau.

I grynhoi, gallai cyhoeddi'r pedair dogfen ganllaw sydd wedi'u diweddaru wella tai, iechyd, cynhwysiant, a hawliau dynol cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yng Nghymru yn sylweddol. Drwy gryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol a darparu canllawiau cliriach sy'n ddiwylliannol sensitif, mae'r dogfennau'n gosod fframwaith mwy teg ar gyfer llety Sipsiwn, Roma a Theithwyr.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynnig yn cefnogi nifer o amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ac yn cyfrannu at o leiaf bump o'r saith nod llesiant, gan gynnwys Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru gydnerth, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Drwy gefnogi mynediad at lety diogel sy'n briodol yn ddiwylliannol, mae'r canllawiau'n helpu i leihau anghydraddoldebau a hybu iechyd.

Wrth gyhoeddi pedair dogfen ganllawiau sydd wedi'u diweddaru gan Lywodraeth Cymru, mae hyn yn gyfle i wreiddio egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y gwaith o ddarparu tai a gwasanaethau ar gyfer un o gymunedau mwyaf ymylol Cymru. Mae'r dogfennau hyn yn adnoddau gweinyddol, yn ogystal hefyd â bod yn fframweithiau ar gyfer amgylchedd mwy cynhwysol i'r cymunedau hyn. Maen nhw'n egluro disgwyliadau cymunedau o awdurdodau lleol drwy ddefnyddio dull cryfach sy'n seiliedig ar hawliau. Wrth gyhoeddi'r canllawiau, mae hyn yn gyfraniad clir a mesuradwy at amcanion llesiant Llywodraeth Cymru ac yn gam pwysig tuag at greu Cymru decach.

Wrth wraidd y dogfennau canllaw hyn mae'r amcan o greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Mae cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn wynebu rhai o'r anghydraddoldebau mwyaf difrifol ym maes iechyd, addysg, tai, a chyflogaeth. Mae'r canllawiau sydd wedi'u diweddaru yn helpu i fynd i'r afael â hyn drwy osod disgwyliadau clir ynghylch pa mor briodol yn ddiwylliannol yw dyluniad safleoedd, prosesau ymgynghori, a mynediad at wasanaethau. Drwy gryfhau dyletswyddau awdurdodau lleol i gynllunio a darparu llety diogel ac urddasol, mae'r canllawiau'n cefnogi mynediad teg at dai. Ar ben hynny, gyda dulliau ymgysylltu gwell a gweithio mewn partneriaeth ag aelodau o'r gymuned, mae'r canllawiau'n meithrin cyfleoedd i rymuso a chynnwys cymuned sydd wedi'i heithrio'n hanesyddol o brosesau gwneud penderfyniadau.

Mae'r canllawiau'n cyfrannu at Gymru iachach drwy hyrwyddo llety diogel, glanwaith sy'n cael ei reoli'n dda. Mae amodau gwael yn y safleoedd wedi cael eu cysylltu dro ar ôl tro â chyfraddau uchel o salwch, a diffyg mynediad at ofal iechyd ymysg teuluoedd.  Mae'r canllawiau sydd wedi'u diweddaru yn gofyn am well glanweithdra, mynediad at ddŵr glân, mannau chwarae diogel i blant, a chysylltiadau â gwasanaethau gofal iechyd ac addysg.

Mae'r canllawiau'n atgyfnerthu'r angen am gynhwysiant cymdeithasol a chyd-ddealltwriaeth rhwng cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr a chymunedau sefydlog. Nod penodol y canllawiau ar reoli gwersylloedd diawdurdod yw lleihau gwrthdaro drwy symud y dull gweithredu o orfodaeth ymatebol i atebion sy'n seiliedig ar les ac sydd wedi cael eu negodi. Mae hyn yn meithrin mwy o barch yn y berthynas rhwng awdurdodau cyhoeddus a theuluoedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan leihau stigma a hyrwyddo mannau cyffredin lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel.

Mae'r dogfennau'n cyfrannu hefyd at Gymru sy'n fwy cynhwysol yn ddiwylliannol. Maen nhw'n mynd ati'n benodol i gydnabod traddodiadau diwylliannol unigryw cymunedau, gan gynnwys pwysigrwydd nomadiaeth a byw cymunedol. Drwy wreiddio'r gwerthoedd hyn yn y gwaith o ddylunio a darparu gwasanaethau, mae'r canllawiau'n diogelu hunaniaeth ddiwylliannol.

Er nad yw'r dogfennau yn economaidd eu natur yn uniongyrchol, mae eu goblygiadau o ran ffyniant yn sylweddol. Mae llety sefydlog a diogel yn hanfodol ar gyfer cael mynediad at waith, addysg a hyfforddiant. Yn y tymor hir, gall y canllawiau leihau gwariant cyhoeddus ar ymyriadau drwy gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau mwy sefydlog.

O ran cynaliadwyedd amgylcheddol, mae'r canllawiau'n annog cynllunio safleoedd yn well, gan gynnwys osgoi ardaloedd sy'n dueddol o gael llifogydd, a rheoli gwastraff a chyfleustodau mewn modd cyfrifol. Er nad yw'r dogfennau eto'n gorchymyn i gael manteision net bioamrywiaeth, maen nhw'n agor y drws ar gyfer datblygu safleoedd sy'n fwy amgylcheddol gyfrifol.

Nid oes dim effeithiau negyddol amlwg.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?**

Bydd adolygiad ôl-weithredu a gwerthusiad o'r pedair dogfen ganllaw yn cael eu cynnal drwy raglen strwythuredig o fonitro ac ymgysylltu dan arweiniad swyddogion Llywodraeth Cymru. Bydd cyfarfodydd monitro rheolaidd gydag awdurdodau lleol yn ystyried a ydyn nhw wedi glynu wrth y canllawiau, gan gynnwys cydymffurfio â chyfrifoldebau dros ddarparu safleoedd, defnyddio Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr yn effeithiol a chanlyniadau'r asesiadau hynny, a rheoli gwersylloedd diawdurdod yn gymesur ac yn seiliedig ar hawliau. Bydd dangosyddion gwerthuso allweddol yn cynnwys nifer ac ansawdd y lleiniau newydd a ddarperir, y gwelliannau

sydd wedi'u gwneud i safleoedd presennol, lefelau bodlonrwydd preswylwyr, a gostyngiadau mesuradwy mewn gwersylloedd diawdurdod dros amser.

Yn ogystal â monitro ffurfiol, mae ailsefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cynnig dull hanfodol i gael mewnbwn parhaus gan y gymuned. Mae'r fforwm hwn yn dod ag aelodau o'r gymuned, awdurdodau lleol a swyddogion Llywodraeth Cymru at ei gilydd, gan sicrhau bod profiad bywyd yn parhau i fod yn ganolog i weithredu a mireinio polisïau. Bydd eu hadborth parhaus yn cefnogi'r gwaith o nodi materion sy'n codi, yn hwyluso datrys problemau ar y cyd, ac yn cryfhau tryloywder.

I wneud yn siŵr bod pawb yn deall ac yn gweithredu'n gyson, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r pedair dogfen ganllaw sydd wedi'u diweddaru ochr yn ochr â chrynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus. I hyrwyddo mynediad teg at wybodaeth, bydd fersiynau Hawdd eu Darllen o bob dogfen ganllaw yn cael eu cyhoeddi hefyd, gan alluogi ystod ehangach o aelodau'r gymuned i ddeall eu hawliau, y prosesau allweddol, a'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw.

Bydd adolygiad ffurfiol o'r pedair dogfen ganllaw yn cael ei gynnal o fewn pum mlynedd i'w cyhoeddi, gan sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol, yn effeithiol ac yn ymatebol i'r newid yn anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ledled Cymru.